***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2705 (Cy.225) (C.90)

# ADDYSG, CYMRU

CYFLOGAETH A HYFFORDDIANT, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2001

*Wedi'i wneud - - 17 Gorffennaf 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 154(2) a (4) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**1**):

**Enwi a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2001.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru, a daw'r darpariaethau a bennir yn yr Atodlen i rym mewn perthynas â Chymru at bob diben.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym**

**2.**—(1) Daw'r darpariaethau yn Neddf Dysgu a Medrau 2000 a bennir yn Rhan I o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Daw'r darpariaethau yn Neddf Dysgu a Medrau 2000 a bennir yn Rhan II o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2002.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D. Elis-Thomas*

17 Gorfennaf 2001 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 2000 p. 21.
(**2**) 1998 p. 38.

**YR ATODLEN** Erthygl 2

# RHAN I

## Darpariaethau sy'n dod i rym mewn perthynas â Chymru ar 1 Ebrill 2002

Adran 36.

Adran 113.

Adran 140 (1) a (2) a (4), (5) a (6) i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym.

Adran 149 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau yn Atodlen 9 a bennir isod.

Adran 153 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau yn Atodlen 11 a bennir isod.

Atodlen 7.

Yn Atodlen 9 —

paragraff 1 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym,

paragraff 67(3),

paragraff 82,

paragraff 84,

paragraff 90(5) a (6),

paragraff 91.

Yn Atodlen 11 diddymiadau'r canlynol i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru —

yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, yn Atodlen 7, ym mharagraff 13(4) y gair "and" yn union ar ôl paragraff (b) ac ym mharagraff 13(7) y gair "or" yn union ar ôl paragraff (a) ac yn Atodlen 22, ym mharagraff 5(1) y gair "or" yn union ar ôl paragraff (a)(i).

# RHAN II

## Darpariaethau sy'n dod i rym mewn perthynas â Chymru ar 1 Medi 2002

Adran 97.

---

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â'r darpariaethau hynny yn Neddf Dysgu a Medrau 2000 a bennir yn Rhan I o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2002. Mae hefyd yn dod â'r darpariaethau hynny yn y Ddeddf honno a bennir yn Rhan II o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym, a hynny ar 1 Medi 2002.

Esbonnir effaith y darpariaethau a bennir yn Rhan I o'r Atodlen isod.

Mae adran 36 yn rhoi pŵ er i Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ("y Cyngor Cenedlaethol") roi grantiau i awdurdod addysg lleol ar gyfer addysg a ddarperir gan ysgolion ar gyfer y rheiny sydd dros oedran ysgol gorfodol.

Mae adran 113 yn dod ag Atodlen 7 i rym, sy'n cynnwys pwerau a dyletswyddau sy'n ymwneud â dosbarthiadau chwech annigonol. Yn benodol, mae'n rhoi pŵ er i'r Cyngor Cenedlaethol gyhoeddi cynigion i gau darpariaeth chweched dosbarth a gynhelir yn dilyn dau adroddiad arolygu anffafriol. Mae hefyd yn darparu ar gyfer gweithdrefn i ymdrin â gwrthwynebiadau y mae'n rhaid ei dilyn cyn y gellir gweithredu unrhyw gynigion o'r fath.

Mae adran 140 ((1)—(2) a (4) i(6)) yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol mewn amgylchiadau penodol i drefnu ar gyfer asesiad i berson y cedwir datganiad o anghenion arbennig ar ei gyfer. Rhaid i'r asesiad gael ei wneud yn ystod blwyddyn olaf orfodol y person hwnnw yn yr ysgol.

Mae Atodlenni 9 ac 11 yn eu trefn yn cynnwys diwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

Esbonnir effaith y ddarpariaeth a bennir yn Rhan II o'r Atodlen isod.

Mae adran 97 yn gymwys i sefydliad neu gyflogwr, sy'n darparu cyrsiau ar gyfer y rhai 19 oed a throsodd, ac a ariennir gan awdurdod addysg lleol neu'r Cyngor Cenedlaethol. Mae'n gosod sefydliad neu gyflogwr o'r fath o dan ddyletswydd i beidio â gwneud unrhyw daliad mewn perthynas â chymhwyster allanol onid yw'r cymhwyster hwnnw wedi'i gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r Nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Daethpwyd neu deuir â'r darpariaethau canlynol yn Neddf Dysgu a Medrau 2000 i rym, mewn perthynas â Chymru, gan orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| Y Ddarpariaeth | Y Dyddiad Cychwyn | Rhif yr O.S. |
|---|---|---|
| Adrannau 104, 105, 107 a 108 | 3 Awst 2000 | 2000/2114(C.56) |
| Adran 94 ac adran 149 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 87 o Atodlen 9.<br><br>Yn atodlen 9, paragraff 87. | 1 Medi 2000 | 2000/2114(C.56 |
| Adrannau 30, 47, 49 a 51, ac adran 149 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau yn Atodlen 9 a restrir isod.<br><br>Atodlen 4.<br><br>Yn Atodlen 9, paragraffau 3, 4 a 93. | 19 Medi 2000 | 2000/2540 (Cy.163)(C.70) |
| Adrannau 134—136 a 146, ac adran 149 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 14 o Atodlen 9.<br><br>Yn Atodlen 9, paragraff 14. | 1 Hydref 2000 | 2000/2559(C.73) |

| Y Ddarpariaeth | Y Dyddiad Cychwyn | Rhif yr O.S. |
|---|---|---|
| Adrannau 42, 43, 44, 46, 48, 73, 87, 93, 95, 139, 141 a 145. Adran 149 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau yn Atodlen 9 a restrir isod. Adran 153 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diddymiadau yn Atodlen 11 y cyfeirir atynt isod.<br><br>Atodlen 5.<br><br>Yn Atodlen 9, paragraffau 21(b), 34, 36, 44(3) a (4), 45, 64, 70, 81, 86 a 92.<br><br>Yn Atodlen 11 y diddymiadau a bennir yno mewn perthynas â'r canlynol —<br>Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, adrannau 18 a 60A, ac Atodlen 5A, Deddf Addysg 1996, paragraff 113 o Atodlen 37, Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, adrannau 19 a 22, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, adrannau 125 a 126, ac Atodlen 27, Deddf Llywodraeth Cymru 1998, adran 104(4). | 1 Ionawr 2001 | 2000/3230 (Cy.213) (C.103) |
| Adran 149 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau yn Atodlen 9 a bennir isod.<br><br>Adran 151 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r ddarpariaeth yn Atodlen 10 a bennir isod.<br><br>Adran 153 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diddymiadau yn Atodlen 11 y cyfeirir atynt isod.<br><br>Yn Atodlen 9, paragraffau 11, 35, 37, 38, 39, 41— 43, 47— 50, 52(3), 83 ac 88. | 1 Ebrill 2001 | 2001/654(C.25) |

| Y Ddarpariaeth | Y Dyddiad Cychwyn | Rhif yr O.S. |
|---|---|---|
| Yn Atodlen 10, Rhan IV.<br><br>Yn Atodlen 11 y diddymiadau a bennir yno mewn perthynas â'r canlynol —<br>Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, adran 91(2),<br>Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, adran 142(1). | | |
| Adrannau 31—35, 37— 41, 45, 50, 74—86, 88, 91, 99. Adran 103(1), (2) a (3) i'r graddau y mae angen hynny at ddibenion adran 103(4)(b).<br><br>Adrannau 103(4), 110—112, 123—129, 137, 138, 140(3). Adran 140(4), (5) a (6) i'r graddau y mae eu hangen at ddibenion adran 140(3). Adrannau 142—144.<br><br>Adran 149 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau yn Atodlen 9 a bennir isod. Adran 153 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau yn Atodlen 11 a bennir isod.<br><br>Yn Atodlen 9, paragraffau 5—10, 12, 13, 15— 17, 20, 21(a), 22—30, 32, 33, 40, 44(1) a (2), 46, 51, 52(1) a (2), 53—56, 59, 65, 66, 67 (5), 68, 72—74. Paragraff 75(a) a (b), ac (c) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran 34 o Ddeddf Medrau a Dysgu 2000. Paragraffau 76—80 a 94.<br><br>Yn Atodlen 11 y diddymiadau a bennir yno mewn perthynas â'r canlynol —<br>Deddf Blwydd-dâl 1972, Atodlen 1,<br>Deddf Anghymhwyso o Dyŷ'r Cyffredin 1975, Rhan III o Atodlen I , | 1 Ebrill 2001 | 2001/ 1274 (Cy.73) (C. 46) |

| Y Ddarpariaeth | Y Dyddiad Cychwyn | Rhif yr O.S. |
|---|---|---|
| Deddf Gwahaniaethau ar sail Rhyw 1975, adran 25(6)(d),<br>Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, adran 19(6)(d),<br>Deddf Diwygio Addysg 1988, adran 124(2)(b),<br>Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, adrannau 1—9, 28(2)(b), 32(2A), 44(6), 45(6), 52(1), 55(1)—(3) a (7), 56, ac Atodlen 2,<br>Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, adrannau 19(6)(f) a 30(2)—(4),<br>Deddf Addysg 1996, adrannau 15, 509(1) a pharagraffau 70 a 112 o Atodlen 37,<br>Deddf Addysg 1997, adran 30(1) a (3),<br>Deddf y Comisiwn Archwilio 1998, adran 36(1) a (2),<br>Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, adrannau 26(1) a (2), 28(1)(a) a 34,<br>Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, paragraffau 41 a 42 o Atodlen 30. | | |
| Adrannau 96, 100(2), 102, 103(5) a 148. 1Adran 149 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 57 o Atodlen 9.<br><br>Adran 153 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau yn Atodlen 11 a bennir isod.<br><br>Yn Atodlen 9, paragraff 57.<br><br>Yn Atodlen 11, y diddymiadau a bennir yno mewn perthynas â'r canlynol —<br>Deddf Addysg 1996, adran 403(1), | 1 Medi 2001 | 2001/ 1274 (Cy.73) (C.46 ) |

| Y Ddarpariaeth | Y Dyddiad Cychwyn | Rhif yr O.S. |
|---|---|---|
| Deddf Addysg 1997, adran 37(1)—(4), a 37(5). | | |